**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | R Fogarty | C A Holley |
| P R Hood-Williams | M Jones | S M Jones |
| L R Jones | H Lawson | W G Lewis |
| P N May | F D O'Brien | S Pritchard |
| M S Tribe | T M White | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Elizabeth Lee | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeremy Davies | Group Leader Parks and Cleansing |
| Rachael Davies | Head of HR & Service Centre |
| Chris Howell | Head of Waste Management |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Beth Allender

---

**40 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd Matthew Jones – Personol – Cofnod Rhif 15, Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet: Tipio Anghyfreithlon – y Cynghorydd Cyril Anderson, Aelod y Cabinet dros Gymunedau (Gwasanaethau).

**41 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**42 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022 fel cofnod cywir.

**43 Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**44 Tipio'n Anghyfreithlon - y Cynghorydd Cyril Anderson, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau (Gwasanaethau) ei adroddiad a gofynnodd i'r Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Gwastraff, Parciau a Glanhau roi trosolwg o ddyletswyddau a gweithdrefnau cyfredol y cyngor i ymdrin â thipio anghyfreithlon.

Darparodd y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Gwastraff, Parciau a Glanhau, yng nghwmni Arweinydd y Tîm Gorfodi Gwastraff a’r Arweinydd Grŵp Parciau a Glanhau y cefndir ynghylch cyfrifoldebau cyfreithiol a manylion ynghylch gweithgareddau a chamau a gymerwyd. Cyfeiriodd at fonitro, clirio a mesurau ataliol (Addysg, Ymgysylltu a Gorfodi) a data gorfodi. Manylodd ar nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a gyhoeddwyd y llynedd a nododd Aelodau'r Pwyllgor fod 20 o Hysbysiadau Cosb Benodedig eraill wedi'u cyhoeddi yn ystod y cyfnod hwnnw.

Roedd cwestiynau a thrafodaeth y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cysondeb o ran yr ymagwedd at reoli tipio anghyfreithlon ar draws y ddinas a'r sir dros y 12 mis diwethaf.
- Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth/weithdrefn tipio anghyfreithlon bresennol, gan fabwysiadu ymagwedd 'ysgafnach' er mwyn rheoli gweithredoedd annoeth, fel dewis arall yn lle erlyniad.
- Llwyddiant y gwaith ataliol sydd wedi arwain at lefel isel o erlyniadau o ganlyniad i dipio anghyfreithlon.
- Natur a lefelau erlyniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Niferoedd y Swyddogion sydd â phwerau dirprwyedig i gyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig.
- Heriau sy'n gysylltiedig â monitro cwynion sy'n gysylltiedig â baw cŵn/taflu sbwriel.
- Mannau lle ceir problemau o ran tipio anghyfreithlon/gwahaniaethau yn natur y tipio anghyfreithlon mewn ardaloedd trefol a gwledig.

- Costau/incwm sy'n gysylltiedig â rheoli tipio anghyfreithlon a gwaredu gwastraff masnachol.
- P'un a ellir cysylltu achosion o dipio anghyfreithlon ag agosrwydd safleoedd amwynderau dinesig presennol, e.e. lle nad yw'r safle lleol yn cymryd gwastraff/deunyddiau ailgylchu penodol.
- Llwyddiant y system cadw slot yn Safle Byrnu Llansamlet.
- Gweithio gyda masnachwyr/busnesau ynghylch prosesau casglu gwastraff er mwyn osgoi problemau tipio anghyfreithlon; Mesurau ataliol a gwaith amlasiantaeth yng nghanol y ddinas a'r ardaloedd cyfagos.
- Rolau a chyfrifoldebau'r Tîm Gweithredol Glanhau Wardiau/Timau Tipio Anghyfreithlon.
- Defnyddio asiantaethau eraill ar gyfer cael gwared ar dipio anghyfreithlon mewn modd arbenigol.
- Datblygu TGCh i ddarparu gwybodaeth fonitro ystyrlon i Aelodau yn dilyn ceisiadau am wasanaeth.
- Yr heriau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â baw cŵn.
- Costau gwyliadwriaeth gudd/agored, buddion a materion cysylltiedig.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet dros Gymunedau (Gwasanaethau) a'r Swyddogion am eu mewnbwn.

**Penderfynwyd** y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Gymunedau (Gwasanaethau) gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

## 45 Adroddiad Blynyddol - Diogelu Corfforaethol 2021/22.

Roedd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal, ynghyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal at yr Adroddiad Blynyddol diweddaraf (Diogelu Corfforaethol 2021/22) gan dynnu sylw at rôl y Grŵp Diogelu Corfforaethol sy'n arwain ar ddatblygu polisi diogelu corfforaethol a monitro gweithrediad polisi, a datblygiadau a chyflawniadau yn erbyn y 7 maes gweithgarwch allweddol. Cyfeiriodd at:

- Yr ymateb i COVID
- Y Polisi Diogelu Corfforaethol
- Adroddiad archwilio mewnol cadarnhaol ar ddiogelu corfforaethol 2022/23 ac adborth o adolygiad Estyn ar Wasanaethau Addysg y cyngor
- Yr ymarfer/rhaglen waith hunanasesu,
- Materion sy'n deillio o'r flwyddyn flaenorol (a oedd yn cynnwys cydymffurfiaeth hyfforddiant gorfodol, gwasanaeth datgelu a gwahardd, contractio a chaffael, arweinyddiaeth ddiogelu), a'r
- Rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cynnydd a monitro o ran cydymffurfiaeth contractwyr a chyflenwyr â Pholisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Abertawe.
- Yr heriau sy'n gysylltiedig ag adrodd cydymffurfiaeth hyfforddiant gorfodol gan staff. Fodd bynnag, nodwyd y byddai cyflwyno Oracle Fusion yn lleddfu'r materion hyn.
- Materion mewn perthynas â phrosesu gwiriadau GDG ac eglurder ynghylch meini prawf gofynnol.
- Gwelliannau i gynnig eiriolaeth y cyngor i blant sy'n agored i niwed, oedolion a'u teuluoedd. Nododd y Pwyllgor anawsterau wrth ddatblygu Gwasanaeth Eiriolaeth i Oedolion a'r cyfleoedd posib a ddarperir drwy gydgynhyrchu.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal a'r Swyddogion.

**Penderfynwyd** y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

## 46 Gwaith dilynol: Gweithgor y Gweithlu Craffu.

Rhoddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Wasanaethu y diweddaraf am faterion y gweithlu ers cyfarfod olaf y Gweithgor Craffu – Y Gweithlu ym mis Chwefror 2022. Cyfeiriodd at ddatblygiadau allweddol gan gynnwys cytundeb diweddar y Cabinet ar gyfer Model Gweithio ar ôl y Pandemig (a 7 egwyddor y cytunwyd arnynt), a Strategaeth y Gweithlu 2022-27. Darparwyd y sefyllfa ddiweddaraf hefyd o ran lles ac absenoldeb salwch, gweithwyr asiantaeth, gweithrediadau Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Wasanaethu, nifer y staff/nifer y staff CALl a Data Iechyd Galwedigaethol.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Gweithdrefnau o ran lles a salwch staff, er enghraifft dychwelyd yn raddol i'r gwaith i'r rheini sy'n dychwelyd yn dilyn cyfnod o salwch hirdymor.
- Cefnogaeth iechyd meddwl/rheoli materion ac argaeledd hyfforddiant
- Manteision cyflwyno system Oracle Fusion wrth ddarparu adroddiadau Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol 'byw' o ddydd i ddydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Wasanaethu am ei hadroddiad addysgiadol, yn dilyn y Gweithgor Craffu.

**Penderfynwyd** y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad gan adlewyrchu'r drafodaeth ac amlinellu safbwyntiau'r Pwyllgor.

## 47 Aelodaeth paneli a gweithgorau craffu.

Mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig, adroddwyd am rai newidiadau ar lafar er mwyn cytuno arnynt:

- Panel Gwella Gwasanaeth a Chyllid – Ychwanegu'r Cynghorwyr Rebecca Fogarty, Dai Jenkins, a Matthew Jones.

Nododd y Pwyllgor fod Panel Perfformiad y Gwasanaethau Oedolion wedi cytuno i gyfethol Mr. Tony Beddow.

**Penderfynwyd** cytuno ar aelodaeth y Paneli a'r Gweithgorau, fel yr adroddwyd.

## 48 Rhaglen Waith Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2022/23 y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ei monitro.

Yn unol â chynllun gwaith y Pwyllgor, y prif eitemau sydd wedi'u trefnu ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 13 Rhagfyr yw:

- Digartrefedd (Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau)
- Cyflawni Blaenoriaeth Gorfforaethol – Trechu Tlodi (Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Les)

Nodwyd hefyd fod y Cabinet wedi dod i benderfyniad ynghylch adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Craffu Caffael ar 20 Hydref, gan gytuno ar bob un o'r 14 o argymhellion y Panel. Bydd y Panel yn ailymgynnull ymhen 9-12 mis i wneud gwaith dilynol mewn perthynas â'u hargymhelliad ac er mwyn asesu effaith yr ymchwiliad.

## 49 Llythyrau craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Lythyrau Craffu' er gwybodaeth. Tynnwyd sylw at Lythyr Craffu a oedd yn ymwneud â Chraffu Cyn Penderfynu'r Pwyllgor ar system Oracle, a oedd yn nodi y disgwylir adroddiad pellach yn dilyn rhoi'r system ar waith (ar ôl Ebrill 2023) i roi eglurder i'r Pwyllgor ar gyfanswm cost y prosiect.

## 50 Dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyddiad ac amser Cyfarfodydd y Panel/Gweithgor Craffu sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.32 pm

**Cadeirydd**